BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

Codi ymwybyddiaeth - Lledaenwch y gair!

Addysgu, ymgysylltu ac annog sefydliadau i fod yn rhai sy'n deall dementia - Ymgyrch y Stryd Fawr

Gellir defnyddio'r ddogfen hon i gynorthwyo i ledaenu'r gair am eich gwaith i ddeall dementia ymysg manwerthwyr a sefydliadau lleol. Bydd cynnwys busnesau lleol yn helpu'r gymuned gyfan i ddeall dementia yn well.

Adnoddau defnyddiol

- Taflen *'Take Action'*
- Manylion am sesiynau Ffrindiau Dementia gan Gymdeithas Alzheimer's i gael eu cynnal yn fuan
- Manylion cyswllt arweinydd y grŵp llywio

Cynllunio'r ymgyrch

- Gall sesiynau Ffrindiau Dementia Cymdeithas Alzheimer's helpu i godi ymwybyddiaeth o ddementia yn y gymuned. Gallai'r grŵp llywio drefnu sesiynau Ffrindiau Dementia yn yr ardal y bydd yr ymgyrch yn cael ei gynnal, gallant hefyd siarad gyda sefydliadau am yr hyfforddiant a sesiynau Ffrindiau Dementia y mae Cymdeithas Alzheimer's yn eu cynnig

- Cysylltwch â'r sefydliadau ar adegau o'r dydd pan fydd hi'n haws siarad gyda staff.

- Sicrhewch fod gan y gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan yn yr ymgyrch y wybodaeth angenrheidiol i addysgu ac annog sefydliadau i fod yn rhai sy'n deall dementia. Gellir defnyddio ein *'Engaging and recognising organisations guide'* i egluro'r camau y mae angen i sefydliadau eu cymryd i gael eu cydnabod ar eu taith i fod yn deall dementia.

Wedi'i addasu o ddarn gan y Gymdeithas Alzheimer

- Sicrhewch fod gwirfoddolwyr yn ymwybodol o rai o'r camau y gall sefydliadau eu cymryd i ddeall dementia.

Dechrau'r Sgwrs

- Mae gofyn i gael siarad gyda'r rheolwr neu'r person sydd â chyfrifoldeb yn rhywle da i ddechrau. Cyflwynwch eich hun ac eglurwch beth yw ystyr yr ymgyrch.

- Fe allech chi gychwyn y drafodaeth drwy roi gwybod iddynt fod yna gamau y gall sefydliadau eu cymryd i deall dementia yn well a chefnogi pobl yn y gymuned leol.

- Defnyddiwch y daflen *'Take Action'* i roi gwybodaeth iddynt am ddementia yng Nghymru a'r manteision i'r sefydliad o ddeall dementia yn well.

- Gofynnwch iddynt a hoffent fwy o wybodaeth ynglŷn â sut y gallent gael eu cydnabod fel sefydliad sy'n deall dementia a chreu amgylchedd cyfeillgar i'w cwsmeriaid.

- Eglurwch unwaith y maent wedi addo i weithredu ac wedi dechrau eu rhoi ar waith, gallant arddangos sticer yn ffenestr eu siop/sefydliad. Mae'r sticer yn dangos i'r cyhoedd eu bod yn sefydliad sydd yn gwneud newidiadau i ddeall dementia yn well.

- Gwnewch nodyn o'u manylion os oes ganddynt ddiddordeb cymryd rhan er mwyn i chi e-bostio'r wybodaeth a ffurflen addewid iddynt ei llenwi. Gall hyn hefyd gynnwys gwybodaeth ychwanegol am y cynllun a pham ei fod yn bwysig os gofynnir amdano. Gallwch hefyd eu cyfeirio at wefan Cydweithredfa Gogledd Cymru lle gallant gael gwybodaeth am gynllun Cymunedau sy'n Deall Dementia Gogledd Cymru.

- Gallwch hefyd adael eich manylion cysylltu gyda nhw, er mwyn iddyn nhw edrych ar y cynllun a chysylltu gyda chi yn nes ymlaen.